**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Nodyn briffio

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am eitemau a godwyd yn sesiwn graffu ddiweddar y pwyllgor gydag CNC. Mae'n cynnwys adrannau yn ymwneud â'r canlynol:

1. Gwariant staff CNC
2. Data ar sychder
3. Diwygio mynediad, gan gynnwys mynediad at ddŵr
4. Cytundebau lefel gwasanaeth

## Gwariant teithio staff CNC

Yn dilyn cwestiwn gan Janet Finch Saunders AS ynghylch "*Pa gamau y mae eich sefydliad yn eu cymryd i sicrhau mwy o werth am arian i'r trethdalwr o ran costau teithio staff?":*

Wedi'i gyflymu mewn ymateb i bandemig COVID-19, gwnaethom ddatblygu system waith hybrid yn gyflym lle mae ein cydweithwyr bellach yn cael budd o ymarferoldeb TGCh llawn wrth weithio gartref – gan leihau costau teithio a'u hôl troed carbon drwy lai o gymudo a llai o filltiroedd busnes.

Yn adlewyrchu barn staff o'u profiadau o weithio gartref yn ystod y pandemig, yn ogystal â mewn ymgynghoriad â'r undebau llafur, rydym wedi lansio polisi dulliau gweithio newydd a luniwyd i roi gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'n cydweithwyr a chynyddu hyblygrwydd a boddhad swydd, tra'n gwella cynhyrchiant a pherfformiad a sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'n effeithiol fel sefydliad.

Ym mis Ebrill 2022, cawsom gais Rhyddid Gwybodaeth am y manylion canlynol:
*Cynhwyswch yr wybodaeth ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol: 2019-20, 2020-21, 2021-22:*

• *Dadansoddiad o unrhyw wariant ar brynu neu logi cerbydau, gan gynnwys faniau a cheir 4x4. Nodwch wneuthuriad a model pob cerbyd, cost pob cerbyd, nifer y cerbydau a brynwyd, y dyddiad prynu a'r pwrpas.*
• *Dadansoddiad o unrhyw wariant ar deithio, gan gynnwys treuliau cymeradwy, er enghraifft tocynnau trên, tocynnau tacsi, cerbydau hurio preifat, teithiau hedfan. Gwnewch*

*yn glir faint o docynnau neu unigolion a deithiodd ym mhob enghraifft, y cwmni a ddefnyddiwyd, a dosbarth pob tocyn.*

Mae'r ymateb llawn ar gael mewn taenlen a anfonwyd gyda'r papur briffio hwn, ond mae tabl o wariant treuliau staff isod:

| **Gwariant teithio** | **2019/2020** | | | **2020/2021** | | | **2021/2022** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Math o draul | **CTM** | **GPC** | **MyNRW** | **CTM** | **GPC** | **MyNRW** | **GPC** | **MyNRW** |
| Trên (gan gynnwys bws) | 364072 | 14209.39 | 13768.22 | 211.1 | 113.16 | 193.8 | 15780.59 | 6124.31 |
| Teithio domestig o fewn y DU (tacsi, fferi ac ati) | Amh. | 1764.11 | 0 | Amh. | 428.1 | 71.1 | 1417.91 | 578.5 |
| Teithio domestig y tu allan i'r DU (tacsi, fferi ac ati) | Amh. | 925.51 | 0 | Amh. | 0 | 0 | 175.19 | 0 |
| Hedfan | 5892.99 | 75.21 | 123 | 0 | 0 | 0 | 543.09 | 0 |
| Car personol staff ar gyfer defnydd yn ymwneud â gwaith – petrol | Amh. | Amh. | 78038.72 | Amh. | Amh. | 38960.2 | Amh. | 101895.3 |
| Car personol staff ar gyfer defnydd yn ymwneud â gwaith – diesel | Amh. | Amh. | 148162.8 | Amh. | Amh. | 80216.99 | Amh. | 179382.3 |
| Beic | Amh. | Amh. | 238.5 | Amh. | Amh. | 125.54 | Amh. | 252.78 |
| Beic modur | Amh. | Amh. | 183.12 | Amh. | Amh. | 26.4 | Amh. | 218.64 |
| Cerbyd trydan/hybrid | Amh. | Amh. | 186.3 | Amh. | Amh. | 856.49 | Amh. | 1078.65 |
| Llogi tymor byr (y tu allan i gontract y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol) | Amh. | 4081.6 | 0 | Amh. | 0 | 0 | 1390 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **369965** | **21055.82** | **240700.6** | **211.1** | **541.26** | **120450.5** | **19306.78** | **289530.5** |
| **Cyfanswm** | | | **631721.42** | | | **121203.2** | | **308837.28** |

*Sylwch nad yw CTM (system archebu Central Travel Management) yn cael ei defnyddio mwyach ar ôl mis Medi 2020*
*GPC = cardiau credyd staff ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â gwaith*
*MyNRW = treuliau staff yn cael eu had-dalu drwy gyflog*
*Amh = Amherthnasol*

*Gwybodaeth ar gael fel cyfansymiau lefel uwch yn unig*

Fe sylwch, ers y pandemig, ein bod wedi mwy na haneru ein gwariant staff. Yn 2021/22, yn seiliedig ar gyfrif pennau o 2,500 staff cyfwerth ag amser llawn, cyfanswm ein treuliau oedd £123.53 y pen.

Nid ydym yn hunanfodlon yn hyn o beth, ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu effeithlonrwydd tra’n lleihau carbon, ac rydym yn mynd ati’n gyson i archwilio sut y gallwn sicrhau’r gwerth gorau am arian ar gyfer y gwaith a wnawn. Mae ein rhaglen Adfywio hefyd yn edrych i wneud arbedion effeithlonrwydd yn ein hystâd adeiledig ac ar draws ein fflyd o ganlyniad i'n ffyrdd newydd o weithio.

# Data ar sychder

Fel y gwyddoch, y llynedd gwelwyd un o’r cyfnodau sychaf yn y gwanwyn a’r haf a gofnodwyd erioed, a oedd yn cyfuno â thywydd poeth a dorrodd record tymheredd Cymru ym mis Gorffennaf 2022. Rhwng mis Mawrth a mis Awst, dim ond 56.7% o’i glawiad disgwyliedig a gafodd Cymru. Dyma'r trydydd cyfnod sychaf o chwe mis ers i gofnodion ddechrau yn 1865, gyda dim ond 1976 ac 1984 yn sychach. Daeth ein tîm sychder gweithredol CNC (Cymru gyfan) a thri thîm sychder gweithredol rhanbarthol ynghyd rhwng canol Gorffennaf a diwedd Tachwedd 2022. Daeth Grŵp Cyswllt Sychder Cymru (dan arweiniad Llywodraeth Cymru) ynghyd hefyd.

Rydym yn cwblhau adolygiad o'n hymateb i'r sychder diweddar a gallwn anfon hwn atoch cyn gynted ag y bydd ar gael. Bydd unrhyw argymhellion a chamau gweithredu ar gyfer gwelliannau yn cael eu hystyried fel rhan o’n gwaith rheoli a chynllunio ar gyfer sychder yn y dyfodol. Ochr yn ochr ag aelodau eraill o Grŵp Cyswllt Sychder Cymru, rydym hefyd yn rhan o adolygiad ehangach Llywodraeth Cymru o ymateb aml-sefydliad, i lywio unrhyw ofynion polisi neu reoleiddiol ehangach.

Yn ogystal, byddwn yn diweddaru canllawiau cynlluniau sychder cwmnïau dŵr ar gyfer y rownd nesaf o gynlluniau sychder yn ystod 2023 a byddwn yn ymgorffori unrhyw welliannau a nodwyd o'r profiad sychder diweddar.

Mae'r gwaith hwn yn hanfodol i lywio ein paratoadau ar gyfer tywydd poeth, sychder a digwyddiadau tywydd eithafol eraill yn y dyfodol. Gwyddom o asesiad o beryglon hinsawdd yn y dyfodol y bydd llifogydd a sychder yn fwy cyffredin yn y dyfodol, fel y gwelir yn y Dystiolaeth ar gyfer trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (CCRA3), ac mae'n rhaid i ni gyda'n gilydd wneud popeth o fewn ein gallu i helpu cymunedau i fod yn fwy cydnerth i effeithiau'r newidiadau hyn.

Ar hyn o bryd, mae CNC yn cynnal asesiad sylfaenol ar draws y sefydliad o risgiau hinsawdd gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth CCRA3 i ddeall ehangder yr effeithiau posibl

y bydd digwyddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys sychder, yn eu cael ar draws ein holl gylch gwaith a gweithgareddau. Mae'r gwaith hwn i fod i ddod i ben ddiwedd 2023 er mwyn rhoi blaenoriaethau wedi'u diffinio'n dda inni o ran y camau addasu y mae'n rhaid inni eu cymryd.

## Diwygio mynediad – gan gynnwys mynediad at ddŵr

Mae CNC wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru dros y tair blynedd diwethaf i ddarparu adnoddau staff ychwanegol i gynghori ar ei Rhaglen Diwygio Mynediad a'i llywio. Rhoddodd CNC gyngor ar amrywiol gynigion sy'n effeithio ar dir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, hawliau tramwy cyhoeddus, a hefyd gwybodaeth am fynediad a gwaith cynllunio.

Yn ystod 2022/23, buom yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor pellach ar y meysydd diwygio mynediad hynny na fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol arnynt, yn enwedig mewn perthynas â hamdden cyfrifol (gan gynnwys gyda chŵn o amgylch da byw) a'r Cod Cefn Gwlad. Yn ogystal, rydym wedi ategu'r cyngor a ddarparwyd ym mlynyddoedd 1 a 2 y rhaglen.

Mae mynediad at ddŵr bob amser wedi bod yn fater dadleuol. Cafodd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru y dasg o archwilio hyn ar wahân ac adroddodd ar ganlyniadau ei drafodaethau is-grŵp a chasgliadau ac argymhellion cysylltiedig erbyn mis Mawrth 2021. Yn dilyn etholiad y Senedd, ailgyhoeddwyd yr adroddiad i Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, gan gadeirydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2021. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad i "Dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau gwaith monitro ansawdd dŵr". Rydym wedi ymrwymo i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r uchelgais hwn.

Yn ystod 2022-23, mae arweinydd prosiect CNC wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio nodau a dulliau gweithredu'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys gwella dealltwriaeth o ganfyddiadau rhanddeiliaid o'r fframwaith presennol ar gyfer dynodi dyfroedd ymdrochi, rhwystrau i geisiadau, a phryderon perchnogion tir. Y nod yw nodi nifer fach o safleoedd ledled Cymru i gynnal tymor ymdrochi peilot yn 2023. Bydd y tymor ymdrochi peilot yn caniatáu i sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, nad ydynt wedi cynnal tymor ymdrochi o'r blaen, weithio trwy ddarparu adnoddau a deall y dyletswyddau, a chaniatáu ar gyfer monitro ansawdd dŵr. Bydd y tymor peilot yn llywio argymhellion i ddiweddaru a gwella'r fframwaith ar gyfer rheoli dyfroedd ymdrochi, gan gynnwys nodi unrhyw ofynion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Ar hyn o bryd, rydym yn trafod saith safle posibl ar gyfer y peilot, gan gynnwys nifer o gronfeydd dŵr, dyfroedd llonydd ac afonydd.

# Cytundebau lefel gwasanaeth

Ar hyn o bryd, yr unig gytundeb lefel gwasanaeth terfynol yw'r un ar y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol. Rydym wedi rhannu'r llythyr gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, Lesley Griffiths AS, gyda chi, yn amlinellu'r ymrwymiad ariannu ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Wrth i'r cytundebau lefel gwasanaeth eraill gael eu cwblhau, rydym wedi ymrwymo i rannu gyda'r pwyllgor y rhai y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Ebrill 2023